**CYD-BWYLLGOR**
**ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL**
**BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY**

| | |
|---|---|
| **Cynhaliwyd ar:** | **10am, 8 Mawrth 2019, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Howard Sutcliffe** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Howard Sutcliffe** |
| **Testun:** | **Eitem 5 Cytundeb Cyfreithiol y Cyd-bwyllgor** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cytundeb Cyfreithiol Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I wneud penderfyniad os yw'r Cyd-bwyllgor yn dymuno un ai adolygu, diwygio neu fabwysiadu'r Cytundeb Cyfreithiol presennol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo i fabwysiadu'r Cytundeb Cyfreithiol presennol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf yn ddarostyngedig i gywiriadau/diwygiadau bychain.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

Mae copi o'r Cytundeb Cyfreithiol presennol wedi'i atodi fel Atodiad 1. Mae'r cytundeb cyfreithiol presennol ar fin cael ei adolygu, diwygio neu fabwysiadu ar gyfer blwyddyn 5 ar 22 Mawrth 2019. Mae wedi gweithio'n dda dros y 5 mlynedd diwethaf a heb ei herio hyd yma.  Wedi ei ddarllen mae'n cyflawni rôl bresennol y Cyd-bwyllgor.

Efallai mai'r unig ardal sydd wedi'i dangynrychioli yw Safle Treftadaeth Y Byd. Fodd bynnag gellir datrys hynny gyda phenderfyniad cadarnhaol ar gyfer Eitem 6 ar yr agenda hwn.

**5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

Y Cytundeb Cyfreithiol yw conglfaen gwaith y Cyd-bwyllgor, Partneriaeth AHNE a'i swyddogion wrth gyflawni'r Cynllun Rheoli. Mae'n rhoi fframwaith i ymrwymo rhanddeiliad AHNE.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Dim ond amser y Swyddog AHNE, Gwasanaethau Cyfreithiol ac aelod y Cyd-bwyllgor o'r Awdurdodau Lleol ynghlwm â'r prosiect.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Mae'r Asesiad Lles wedi'i wneud gan Sir Ddinbych yn dangos fod yr Asesiad Cyfreithiol yn helpu i gyflawni nifer o'r saith nodyn lles trwy'r Cynllun Rheoli AHNE presennol/yn y dyfodol mewn ffordd positif.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Ymgynghori a chyngor wedi'i gymryd trwy'r Gweithgor Swyddogion AHNE ynghyd â Thîm Cyfreithiol Sir Ddinbych. Bydd y trafodaethau heddiw yn pennu ar unrhyw ymgynghoriadau sydd eu hangen.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Mae'r Cytundeb Cyfreithiol arfaethedig yn gyson gyda sut mae'r Cyd-bwyllgor wedi cael ei redeg yn llwyddiannus dros y 5 mlynedd gyntaf ac felly yn cael ei gefnogi o safbwynt ariannol.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'n bwysig i adolygu/diweddaru/moderneiddio'r Cytundeb Cyfreithiol iddo fod yn effeithiol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 101(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle y gall awdurdodau Lleol wneud trefniadau i 'gyflawni swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill drwy Gydbwyllgor'